CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Anerchiad Llywydd

Sir Emyr Jones Parry GCMG FInstP PLSW

18 Mai 2016

Prynhawn da Gymrodyr, Gyfeillion / Good afternoon Fellows, Friends

Croeso i Gyfarfod Cyffredinol Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Croeso cynnes iawn i chi i chweched Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Llongyfarchiadau yn arbennig i'r 46 o Gymrodyr sydd newydd eu hethol. Mae'r Gymrodoriaeth bellach yn cynnwys 427 o Gymrodyr.

(Llongyfarchiadau i'r rhai a etholwyd sy'n dod â'r gymrodoriaeth nodedig i 427)

Mae'n briodol fy mod yn cydnabod ac yn diolch i Swyddogion a Chyngor y Gymdeithas am eu gwaith dros y flwyddyn, a chyfraniad aruthrol ein Prif Weithredwr yr Athro Peter Halligan a'i dîm rhagorol. Mae ein diolch yn ddyledus i bawb a gyfrannodd at ein gweithgareddau, yn enwedig i aelodau'r paneli a fu'n craffu ar enwebiadau ac a argymhellodd ein Cymrodyr newydd.

Erbyn hyn mae'r Gymdeithas yn derbyn cymorth ariannol gan bob un o wyth prifysgol Cymru, ac mae'r Gymrodoriaeth yn ehangach ar ôl etholiad eleni. Mae hyn yn hanfodol. Fel cymdeithas genedlaethol rhaid i ni gynrychioli Cymru gyfan, ac yn wir y ddwy ryw. Mae ein diolch i bawb sy'n ein cefnogi, yn enwedig y Cymrodyr unigol hynny sy'n rhoi mor hael. Mae gosod y Gymdeithas ar sail ariannol gynaliadwy yn hanfodol ac rydym ni'n bwriadu lansio ymgyrch i godi arian yn ddiweddarach eleni i gefnogi nifer fach o Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau Ymchwil uchel eu proffil yn y dyfodol.

(Diolch i bawb a gyfrannodd mewn cymaint o wahanol ffyrdd tuag at ein gwaith).

Mae'n werth ailadrodd ein cenhadaeth. Dathlu, cydnabod, cadw, diogelu ac annog rhagoriaeth ym mhob disgyblaeth ysgolheigaidd, ac yn y proffesiynau, diwydiant a masnach, y celfyddydau a gwasanaeth cyhoeddus.

Hyrwyddo datblygiad dysg ac ysgolheictod a lledaenu a chymhwyso canlyniadau ymholi ac ymchwil academaidd.

Gweithredu fel ffynhonnell annibynnol o gyngor a sylwadau ysgolheigaidd ar faterion sy'n effeithio ar ymchwil, ysgolheictod a llesiant Cymru a'i phobl a datblygu trafodaeth a rhyngweithio cyhoeddus ar faterion o bwys cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae ein nod yn parhau'n glir ac yn ddiamwys – dathlu ysgolheictod a gwasanaethu'r genedl.

(I ddathlu ysgolheictod a gwasanaethu'r genedl)

Wrth i'r Gymdeithas agosáu at ei chweched pen-blwydd, beth yw ei statws ar hyn o bryd? Fel newyddian, sut mae eraill yn ein gweld ni? Wedi'r cyfan, i academydd mae cydnabyddiaeth cymheiriaid yn rhywbeth i'w werthfawrogi. Felly sut aeth hi gyda'ch Cymdeithas? Mae'r ateb yn un cryno - bu'n flwyddyn eithriadol.

(Mae hi wir wedi bod yn flwyddyn gofiadwy gyda chynnydd gwirioneddol i'w adrodd).

Ym mis Tachwedd yn Stadiwm Mileniwm Cymru, buom yn dathlu dyfarnu Siarter Brenhinol. Bwriedir y Siarter ar gyfer cyrff sy'n gweithio er budd y cyhoedd ac sy'n dangos 'amlygrwydd, sefydlogrwydd a pharhad yn eu maes penodol'. Mae'r dynodiad yn cyfoethogi statws y Gymdeithas fel academi genedlaethol Cymru ac yn cydnabod yr ymrwymiad i ddathlu ysgolheictod a gwasanaethu Cymru. Daeth y Siarter Brenhinol i rym yn gyfreithlon pan osodwyd y Sêl Fawr ddiwedd mis Medi 2015. Yn weinyddol, bydd y Siarter yn disodli'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu cyfredol ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, 31 Gorffennaf 2016. Nid yw caniatáu Siarter Brenhinol wrth gwrs yn golygu teitl 'Brenhinol' i'r Gymdeithas, ond mae'n gydnabyddiaeth deilwng. Rydym ni'n parhau i weithio at sicrhau'r teitl Brenhinol.

(Yn y byd academaidd mae sêl cymeradwyaeth Frenhinol yn dystiolaeth sefydlog a sylweddol o gydnabyddiaeth).

Yn ystod y dathliadau, cyfarchwyd y dyfarniad gan y Cymmrodorion, a gan gynrychiolwyr y Gymdeithas Frenhinol, yr Academi Brydeinig, Cymdeithas Frenhinol Caeredin ac Academi Frenhinol Iwerddon. Dyma oedd y gydnabyddiaeth orau o blith ein cymheiriaid, ac roedd yn adlewyrchu ein polisi bwriadol o sefydlu a datblygu cysylltiadau â'r cyrff anrhydeddus hyn. Yn wir, yn dilyn ein hawgrym ni, cynhaliodd y Gymdeithas Frenhinol drafodaeth ym mis Chwefror i edrych ar rôl, perthnasedd a budd cyhoeddus cymdeithasau dysgedig. Dechreuodd y gwahoddiad i hanner cant o gymdeithasau dysgedig â'r geiriau: 'Yn sgil y ffaith i Gymdeithas Ddysgedig Cymru dderbyn ei Siarter Brenhinol …". Roedd y trafodaethau'n amlygu pwysigrwydd parhaus gwaith cymdeithasau dysgedig.

(Mae gan gymdeithasau ac academïau dysgedig rôl barhaus a pherthnasol yn y gymdeithas gyfoes)

Roedd y digwyddiad hefyd yn dangos diddordeb cymunedol penodol gyda'r RSE a'r RIA, gyda phob un ohonom yn academi genedlaethol yn cynrychioli sbectrwm ehangach o dalentau academaidd. Rydym ni'n elwa a byddwn yn parhau i elwa ar y cydweithio hwn, ac yn benodol byddwn yn tynnu ar brofiad ein hacademïau cenedlaethol partner. Yn benodol rydym ni'n bwriadu cydweithio pan geir budd cyffredin i fynegi barn gyfunol neu ar y cyd. Drwy weithredu ymarferol o'r fath, byddwn ni hefyd yn cyfoethogi ein dylanwad ein hunain. Yn ddiweddar am y tro cyntaf, buom yn cydweithio gyda'r RSE gan gyflwyno ymateb ar y cyd i adolygiad yr Arglwydd Stern o'r REF. Unwaith eto, mewn partneriaeth â Llywydd y Gymdeithas Frenhinol, rwyf i wedi anfon ebost at bob AC sydd newydd eu hethol, gan eu croesawu i'w swydd a hefyd

anfon gwybodaeth lefel sector i ddangos pam y dylen nhw boeni am wyddoniaeth ac ymchwil yng Nghymru.

(Mae datblygu gwerthfawrogiad mwy brwdfrydig o bwysigrwydd gwyddoniaeth a thechnoleg ymhlith Aelodau'r Cynulliad yn amcan pwysig. Nid yw ychwaith yn llai pwysig i feithrin eu diddordeb ar draws pob disgyblaeth).

A hithau wedi'i gwreiddio yng Nghymru fel academi genedlaethol, mae eich Cymdeithas yn rhyngwladol ei bydolwg, a'i bwriad yw ehangu gorwelion a chydweithio gydag eraill er budd cyffredin. Dyna yw hanfod addysg uwch, agor meddyliau a syniadau i'r byd. Nid yw hyn yn bwysicach yn unman nag yn Ewrop. Mae cefnogaeth yr Undeb Ewropeaidd yn ffynhonnell hanfodol o gyllid ymchwil yn y DU. Ar hyn o bryd mae 18% o wariant yr UE yn y DU (EUR 8.8bn) yn wariant ar ymchwil. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi sefydlu trefn ymgynghorol newydd, y Mecanwaith Cyngor Gwyddonol Ewropeaidd (SAM). Mae'n cynnwys tair elfen; Grŵp Lefel Uchel, uned SAM yn y Comisiwn, a'r Cyngor Gwyddoniaeth ar gyfer Polisi gyda'r 5 Academi Ewropeaidd fawr yn cyfrannu ato. Dau o'r rhain yw ALLEA, sef Ffederasiwn academïau cenedlaethol Ewrop, a'r Academia Europaea. Bydd Canolbwynt Gwybodaeth Prifysgol Caerdydd yr Academia Europaea dan arweiniad yr Athro Ole Petersen, Is-lywydd y Gymdeithas Ddysgedig ac Academia Europaea, yn cyfrannu'n weithredol at y Mecanwaith Cyngor Gwyddonol drwy Academia Europaea. Byddwn yn cyfrannu felly i ddatblygiad polisi ymchwil yr UE. Mae hwn yn gyfle gwerthfawr i dynnu sylw at wyddoniaeth yng Nghymru, ac yn wir at eich Academi genedlaethol yn y parth Ewropeaidd. Rydym ni'n falch i gael ein cysylltu â chyfarfod blynyddol yr Academia Europaea yng Nghaerdydd ym mis Mehefin, lle mae'r Gymdeithas yn noddi'r drafodaeth ar Fecanweithiau Cyngor Gwyddonol ar y diwrnod cyntaf. Bydd lansio canolbwynt Caerdydd yr Academia Europaea yn y cyfarfod blynyddol hwn hefyd yn gyfle penodol i hybu a hyrwyddo Cymru. Mae rhagoriaeth ein hymchwil a'n haddysgu'n teilyngu sylw.

(Mae rhagamcanu a hyrwyddo'r gorau o Gymru yn hollbwysig, a gall y Gymdeithas gyfrannu'n gymedrol at y nod hwn).

Nol ym mis Ebrill yn Fiena, yn Academi Gwyddorau Awstria, derbyniwyd y Gymdeithas Ddysgedig yn ffurfiol i aelodaeth lawn o ALLEA, sy'n ffordd arall i gyfrannu at bolisi gwyddoniaeth yr UE. Mae ALLEA yn dod â 60 o academïau o dros 40 o wledydd sy'n perthyn i Gyngor Ewrop at ei gilydd. Mae'r academïau sy'n aelodau'n cynnwys cymdeithasau dysgedig o bob maes yn y gwyddorau naturiol, y gwyddorau cymdeithasol, a'r dyniaethau. Ni bellach yw pedwerydd aelod ALLEA o'r DU, a'r olaf, gan ymuno â'r Academi Brydeinig, y Gymdeithas Frenhinol a Chymdeithas Frenhinol Caeredin.

Roedd ein cysylltiadau ag Ewrop hefyd yn amlwg y mis diwethaf yn Aberystwyth, yn y Fforwm Llenyddiaeth Ryngwladol ar Ddatblygu Cynulleidfa, a drefnwyd gan Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau a Ned Thomas FLSW. Traddodwyd y brif ddarlith gan yr Athro Patrick McGuinness, Cymrawd arall, ar 'Other people's countries:

tales of literary and cultural belonging' gyda chymorth y Gymdeithas, gan drafod y ffordd orau i ddatblygu cynulleidfa ar gyfer llenyddiaeth diwylliannau eraill, mawr a bach.

Mae ein huchelgais yn estyn i'r gorllewin hefyd, i Gymdeithas Gogledd America er Astudio Diwylliant a Hanes Cymru, sy'n cynnal eu cynhadledd flynyddol yn Harvard ym mis Gorffennaf. Bydd y Gymdeithas yn noddi darlith gan yr Athro Marc Shell, Athro Irving Babbit Llenyddiaeth Gymharol a Llenyddiaeth Saesneg ac Americanaidd ym Mhrifysgol Harvard. Mae'r gefnogaeth hon yn rhan o'n rhaglen i godi proffil ysgolheictod sy'n gysylltiedig â Chymru y tu hwnt i Gymru, yn ogystal ag o fewn ein cenedl.

Y llynedd, cynhaliodd y Gymdeithas ei Symposiwm Rhyngwladol cyntaf ym Mhortmeirion mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor. Dan y teitl 'Economic policies for peripheral economies' denodd y symposiwm tri diwrnod bwysigion Academaidd a dadansoddwyr economeg rhyngwladol fu'n archwilio lle datblygu economaidd rhanbarthol mewn economi wedi'i globaleiddio sy'n cyfyngu ar allu llywodraeth i weithredu'n wahaniaethol. Ar 10 Mai eleni, lansiwyd rhifyn arbennig o Welsh Economic Review ar 'Economic Policy for Peripheral Economies', gyda phapurau o'r Symposiwm Rhyngwladol cyntaf hwn. Diolch i'r Athro Gerald Holtham (FLSW) am olygu'r rhifyn arbennig hwn a hefyd am sbarduno a chydlynu'r gynhadledd lwyddiannus hon. Mae dilyniant i gynhadledd o'r fath yn hanfodol. Mae angen i ni weithredu i ddatblygu economi Cymru. Cefais fy arswydo'r wythnos ddiwethaf o gael fy atgoffa fod GDP gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar gyfartaledd yn 71% o lefel cyfartaledd yr UE, ac yn nis na'r cyfartaledd mewn rhannau o Romania a Bwlgaria, ac yn llai na chyfartaledd Slofenia, Slofacia a'r Weriniaeth Siec gyfan.

(Mae cyfraniad Addysg Uwch i'r economi yn sylweddol yn nhermau diriaethol, ond hefyd o ran denu buddsoddiad a chynhyrchu gweithlu medrus).

Mae'r Gymdeithas hefyd yn gweithio ar fater rhyngwladol arall o bwys - iechyd byd-eang, a elwir ambell waith yn Un Iechyd, sef rhyng-ddibyniaeth iechyd dynol, anifeiliaid a phlanhigion. Mae'r Athro John Wyn Owen, Trysorydd y Gymdeithas, wedi arwain y gwaith hwn ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Aberystwyth. Cynullwyd Grŵp Arbenigol Lefel Uchel yn y Celtic Manor ym mis Chwefror i baratoi argymhellion ar ddiogelwch iechyd byd-eang. Cyflwynwyd canlyniad y cyfarfod hwn a noddwyd gan y Gymdeithas gan John mewn cyfarfod o'r Inter Action Council yn Baku. Cadarnhaodd y Cyngor, oedd yn bennaf yn cynnwys cyn-arweinwyr byd, y dull a argymhellwyd gan fabwysiadu casgliadau ymarferol ar gyfer gweithredu pellach. Bydd gweithredu dilynol yn cynnwys rôl Cymru fel enghraifft o system iechyd cyfunol sy'n ceisio ymateb i'r gwahanol ystyriaethau, gan gynnwys paratoi ar gyfer argyfyngau iechyd byd-eang. Mae cynlluniau hefyd ar waith ar gyfer symposiwm nesaf y Gymdeithas yng Nghaergrawnt yn 2017 ar '*Ethics of Sustainable Development*'.

Mae ein gwaith ar Astudiaethau Cymreig yn parhau i symud ymlaen yn araf o ystyried ein hadnoddau. Gellir diffinio'r pwnc fel archwilio, egluro a dealltwriaeth ddeallusol o bopeth sy'n ymwneud â Chymru a'i

chysylltiadau â'r byd ehangach. O ganlyniad, mae Astudiaethau Cymreig yn disgrifio astudiaeth gynhwysol, draws-ddisgyblaethol o hanes, llenyddiaethau, gwyddoniaeth, celfyddydau creadigol a mynegiant creadigol Cymru. Un nod sydd gan y prosiect yw casglu at ei gilydd gyrff a rhwydweithiau sy'n bodoli ac sy'n rhannu'r gred gref bod llawer i'w ennill i Gymru drwy ddatblygu Astudiaethau Cymreig bywiog a pherthnasol, gan ysbrydoli ei phobl a chyfrannu at sicrhau cyflenwi Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd llawer ohonoch yn cofio cyfres glasurol Neil MacGregor ar Radio 4, the History of the world in a hundred objects. Yn yr un modd, yn Iwerddon a'r Alban ceir hanes yn seiliedig ar gant o wrthrychau a digwyddiadau. Rwyf i'n gobeithio ymhen amser y gwelwn yr un cysyniad yn cael ei ddatblygu yng Nghymru. Ceir cyfoeth o ddeunydd i dynnu arno.

Mae'n amheus gen i a fu ein rôl yn gwasanaethu'r genedl yn fwy perthnasol neu briodol erioed. Fe wnawn ni hyn drwy hyrwyddo ysgolheictod Cymreig a llwyddiannau ein Sector Addysg Uwch yn allanol, gan arwyddo'r hyn a gyflawnir drwy ragoriaeth a thalent yng Nghymru. Mae gan y Gymdeithas Ddysgedig rôl ehangach yn y sector ar wahân i gyfraniad prifysgolion ac Is-Gangellorion unigol. Ar hyn o bryd rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth â HEFCW ar hyrwyddo tirwedd wyddonol, ymchwil Cymru i gynulleidfa wyddonol fyd-eang ehangach drwy gomisiynu erthygl i godi ymwybyddiaeth yn y cylchgrawn nodedig SCIENCE. Bwriad hyn fydd tynnu sylw at feysydd ymchwil gwyddonol yng Nghymru, a phroffilio rhai o'r chwaraewyr allweddol gyda golwg ar sicrhau sylw rhyngwladol ehangach a dealltwriaeth o'r datblygiadau yng Nghymru. Caiff yr erthygl ei golygu'n annibynnol, fydd yn sicrhau unplygrwydd y cynnwys.

Yng Nghymru rydym ni wedi derbyn gwahoddiad i gynnig barn ac arbenigedd mewn amrywiol feysydd. Fe wnawn hyn ar sail tystiolaeth a heb ffafriaeth. Rwyf i'n falch i adrodd bod ein barn yn cael ei cheisio'n gynyddol, ac, fe gredaf, yn cael ei hystyried yn gynyddol.

(Mewn system un siambr lle bydd un blaid wleidyddol wedi bod mewn grym am fwy na 20 mlynedd, mae angen cryn dipyn o lais gwrthrychol annibynnol).

Llynedd fe nodais ein cyflwyniad ystyrlon i Adolygiad Diamond. Fe welwn yn fuan a gawsom unrhyw effaith ar ei argymhellion. Ond mae'n glir y bydd yr Adolygiad, ac yn benodol ymateb Llywodraeth Cymru, yn cael dylanwad sylweddol ar ddyfodol Addysg Uwch yng Nghymru. Mae gan y myfyrwyr fudd uniongyrchol ond mae gennym ni hefyd gyfrifoldeb i ddiogelu cynaladwyedd sefydliadau prifysgol Cymru. Dylai unrhyw leihad yng nghyfanswm y cymorth i fyfyrwyr arwain at gynnydd cyfatebol yn y taliadau uniongyrchol i brifysgolion. Byddwn yn cadw golwg fanwl ar y datblygiadau.

(Mae'r her ariannol i'n prifysgolion yn llym. Byddai ailgyfeirio rhywfaint o'r cyllid cymorth i fyfyrwyr yn uniongyrchol i'r brifysgol yn gam bach i gyflwyno rhywfaint o sicrwydd yn eu hincwm).

Cyflwynom ni sylwadau i'r Athro Hazelkorn, y cyhoeddwyd ei adolygiad ar system addysg ôl-orfodol i Gymru ar 10 Mawrth. Pwysleisiom ni'r achos dros gael corff hyd braich rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector. Dyma

fydd y canlyniad yn ôl pob tebyg. Ond mae'n edrych yn debygol y bydd olynydd HEFCW yn cwmpasu Addysg Bellach yn ogystal ag Addysg Uwch. Gallai hyn gynnig triniaeth decach i'r cyntaf, ond bydd yn hanfodol sicrhau cyllid digonol i ymchwil. Doeddwn i ddim yn meddwl llawer o ddadansoddiad yr Athro. Bydd yn hanfodol i'r Gymdeithas fonitro'r ymateb a ddaw o du'r llywodraeth a gwneud sylwadau beirniadol i ddiogelu buddion gwirioneddol Addysg Uwch.

(Mae ein diddordeb cyffredin rwy'n credu o safbwynt llywodraeth a phrifysgolion y dylid cael corff rhyngddynt sydd â phwerau clir).

Rhaid i ni barhau i bwysleisio'r ffaith mai'r sector addysg uwch yw un o ddiwydiannau pwysicaf Cymru, sy'n creu degau o filoedd o swyddi ac yn hybu gweithgaredd economaidd sylweddol mewn cymunedau lleol, yn ogystal ag yn yr economi ehangach yng Nghymru. Yn 2014 creodd prifysgolion Cymru £4.6 biliwn o gynnyrch yng Nghymru.

Prifysgolion Cymru sydd â'r ganran uchaf o ymchwil sy'n arwain y byd o unrhyw ran o'r DU o ran ei effaith, gydag yn agos i hanner ohono'n cael effaith drawsnewidiol uniongyrchol ar gymdeithas a'r economi. Ond ni allwn fod yn hunanfodlon. Ystyriwch amseru anffodus y toriadau arfaethedig i gyllid craidd HEFCW ychydig fisoedd yn ôl. Mae angen i ni fel Cymdeithas barhau i ddadlau yn erbyn unrhyw doriadau real yn y gyllideb ymchwil sy'n gysylltiedig ag ansawdd (QR) sy'n sail i ymchwil Cymru sy'n arwain y byd. I Brifysgolion Cymru, mae brand addysg uwch y Deyrnas Unedig yn hollbwysig. Yr her wedyn yw cynnig hefyd fantais ddigon gwahanol a chadarnhaol yn sgil astudio unrhyw bwnc penodol yng Nghymru. Mae hyn yn hanfodol i'r gallu sydd gan brifysgolion Cymru i gystadlu mewn amgylchedd allanol heriol.

(Mae'n ddyletswydd ar ein prifysgolion, o fewn brand y Deyrnas Unedig, i werthu'r gwerth ychwanegol gwirioneddol o astudio yng Nghymru. Mae'n hanfodol yn y gystadleuaeth ddwys sydd ohoni i recriwtio myfyrwyr, sydd, yn ei dro, y ffynhonnell incwm sylfaenol ar gyfer y brifysgol).

Gall newidiadau yn nhrefniadau Addysg Uwch Lloegr effeithio arnom ni'n uniongyrchol yng Nghymru, yn aml er anfantais i ni. Byddwn yn edrych ar yr oblygiadau i Gymru yn sgil Papur Gwyn y DU yr wythnos hon a datblygiadau cyfochrog ar HEFCE a'r ASA. Bydd yn hanfodol fod unrhyw newidiadau'n atgyfnerthu enw da Addysg Uwch Cymru yng nghyd-destun y DU.

(Mae'n rhaid i ni gynnal enw da'r sector. Rhaid i drefniadau gwahanol yng Nghymru gael eu gweld i fod o'r safon uchaf).

Mae cydnabod teilyngdod a llwyddiant yn parhau'n nodwedd hanfodol a gwerthfawr ym mhob academi genedlaethol. Mae eich Cymdeithas yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, ac mae'n bwysig i unigolion, i'r genedl, ac i'r sector academaidd a'i enw da.

Fel y gwelsom ynghynt, eleni ymunodd 46 o wyddonwyr rhagorol, academyddion nodedig a gweithwyr proffesiynol medrus â'n Hacademi Genedlaethol. Er ei fod yn bwysig ar gyfer cydnabod unigolion, mae'r etholiad hefyd yn cryfhau Cymrodoriaeth y Gymdeithas. Mae dod â'r Cymrodyr mwyaf llwyddiannus a thalentog sy'n gysylltiedig â Chymru at ei gilydd yn sicrhau ystod o arbenigedd i'r Gymdeithas. Mae hyn yn ein galluogi i gyfrannu at ddiben a lles cyffredin datblygu a hyrwyddo rhagoriaeth ym mhob disgyblaeth ysgolheigaidd, a darparu cyngor annibynnol ac arbenigol i'r llywodraeth ac i gyrff eraill. Eleni, am y tro cyntaf etholodd y Gymdeithas hefyd ddau Gymrawd er Anrhydedd: Syr Michael Atiyah a'r Athro yr Arglwydd Martin Rees.

Ar yr un pryd mae'r gymdeithas wedi gwneud cynnydd sylweddol drwy gynyddu'r nifer o Gymrodyr benywaidd a hefyd sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n well yn llywodraethiant, cenhadaeth a gweithgareddau'r Gymdeithas. Ym mis Mawrth 2013, menywod oedd 11.8% o'r Cymrodyr. Rydym ni'n dechrau gweld canlyniadau adolygiad yr Athro y Fonesig Terry Rees yn ôl yn 2013. Erbyn heddiw mae 16.4% o Gymrodyr y Gymdeithas yn fenywaidd.

(Ond mae llawer mwy i'w wneud, o fewn y Gymdeithas ac mewn prifysgolion unigol i annog a grymuso academyddion benywaidd).

Mae medalau unigol, a ddyfernir yn gystadleuol ar sail teilyngdod, wedi darparu hanes hir a nodedig o gydnabyddiaeth yn y byd academaidd. Rydym ni'n datblygu ein portffolio ein hunain o fedalau yn araf ac yn strategol. Heno byddwn yn cyflwyno'r bedwaredd Fedal Menelaus am ragoriaeth mewn unrhyw faes peirianneg a thechnoleg, a medal gyntaf Frances Hoggan i ymchwilydd benywaidd rhagorol ym maes STEMM. Ar 4 Gorffennaf yn Amgueddfa'r Glannau yn Abertawe byddwn yn lansio Medalau Dillwyn ar gyfer rhagoriaeth ymchwil gyrfa gynnar mewn STEMM, y celfyddydau creadigol a'r dyniaethau, a gwyddorau cymdeithasol a busnes. Yn yr hydref, byddwn yn cyflwyno Medal Hugh Owen, a ariannir gan Lywodraeth Cymru, i gydnabod cyfraniadau pwysig i ymchwil addysgol neu gymhwyso ymchwil i ddarparu arloesi sylweddol mewn polisi addysg a/neu ymarfer addysgol proffesiynol yng Nghymru. Mae'r medalau hyn yn cydnabod rhagoriaeth academaidd, a hefyd yn adennill ac yn hyrwyddo treftadaeth hir o lwyddiant Cymreig.

Yn y deunydd ysgrifenedig a gylchredwyd cyn y cyfarfod hwn ceir rhestr gynhwysfawr o'n gweithgareddau dros y flwyddyn ddiwethaf. Ein nod yw cyflwyno darlithoedd ac achlysuron eraill fydd o ddiddordeb i'n Cymrodyr ac i'r gymuned ehangach. Yn yr un modd mae John Tucker a Gareth Roberts yn paratoi cyfres o fonograffau byr ar Wyddonwyr Cymru i'w cyhoeddi gan Wasg Prifysgol Cymru, cyfres i gyd-fynd â'r gyfres uchel ei pharch Writers of Wales, a sefydlwyd gan Meic Stephens, ac a olygir gan Jane Aaron a Wynn Thomas.

Gobeithio y bydd Cymrodyr hefyd yn gwerthfawrogi'r ymdrechion parhaus i wella cyfathrebu mewnol ac allanol, nid yn unig ar lwyddiannau a gweithgareddau, ond hefyd mewn crynodebau addysgol am ddatblygiadau ehangach yn y sector. Mae InBrief a gwell gwefan yn enghreifftiau o hyn.

(Anelwn at well cyfathrebu gyda mwy o ffocws. Ein nod yw cyflwyno cyfrifon byr y bydd Cymrodyr yn awyddus i'w darllen. Un o ryfeddodau Technoleg Gwybodaeth yw ein bod yn gwybod faint o negeseuon e-bost sy'n parhau heb eu hagor).

Yn amlwg mae'r Cyngor yn benderfynol y bydd y Gymdeithas yn gweithredu'n effeithlon ac yn gost-effeithiol, ac mae'r adnoddau sydd ar gael yn pennu'r hyn y gellir ei gyflawni. Mae Peter Halligan a'i dîm yn gwneud yn wych. Mae'r galwadau arnyn nhw'n cynyddu wrth i'n gweithgareddau ehangu, ac wrth i ni ymgysylltu ag ystod ehangach o bobl a sefydliadau.

Mae gennym gronfa enfawr o dalent yn y Gymrodoriaeth. Gobeithio y gallwn dynnu mwy ar eich arbenigedd yn y flwyddyn nesaf, yn enwedig wrth i ni ymateb i wahoddiadau i gyflwyno barn ystyrlon i lywodraethau a deddfwriaethau ac yn gynyddol i adolygiadau a thrafodaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar fuddiannau'r Cymrodyr. Mae barn sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn galw am arbenigedd sefydledig ein Cymrodyr. Wrth gwrs ni fyddwn yn cynnig barn ar faterion gwleidyddol neu ddadleuol lle nad oes gobaith i ni gynrychioli barn y Gymrodoriaeth.

Ymhen ychydig dros fis bydd pobl Prydain yn penderfynu a yw dyfodol y genedl yn gorwedd yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r flwyddyn nesaf yn addo cyffro a heriau. Mae llawer i'r Gymdeithas ei wneud a bydd rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu. Mae gennym gyfrifoldeb penodol fel yr academi genedlaethol i wneud sylwadau adeiladol ar esblygiad Addysg Uwch yng Nghymru, ac yn wir yn y Deyrnas Unedig. Ymhellach mae harneisio a datblygu deallusrwydd yn hanfodol i unrhyw ddyfodol. Mae'r Gymdeithas Ddysgedig yn cynrychioli ac yn cydnabod rhagoriaeth. Mae ganddi gyfrifoldeb hanfodol hefyd i ysbrydoli talent, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Ni allwn orbwysleisio'r neges fod ymchwilwyr ac athrawon rhagorol yn gwneud hyn yn ddyddiol yng Nghymru gan wneud cyfraniadau gwirioneddol i gymdeithas ac i'r economi.

Rydym ni wedi datblygu'n dda hyd yma yn ein cenhadaeth i gefnogi talent newydd a helpu i ysbrydoli unigolion i lwyddo. Byddwn yn parhau i gadw ein Cymdeithas yn berthnasol ac yn werthfawr mewn amgylchedd newidiol lle mae gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei fesur, ei gymharu a'i feirniadu'n gynyddol.

(Mae ein cenhadaeth yn glir. Rydym yn gwasanaethu'r genedl mewn sawl ffordd. Ond mae ysbrydoli uchelgais, hyrwyddo rhagoriaeth, a meithrin talent yn gyfraniadau sylfaenol i Gymru).

Diolch yn fawr / Thank you

18 Mai 2016